**PWYLLGOR ARDAL DWYFOR**

**15/10/15 (5.20PM – 7.45PM)**

**Presennol:-** Y Cynghorydd John Brynmor Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Eirwyn Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Stephen Churchman, Anwen Davies, Alwyn Gruffydd, Sian Wyn Hughes, Jason Humphreys, W. Gareth Roberts, Angela Ann Russell, Gruffydd Williams, Owain Williams ac R. H. Wyn Williams.

**Swyddogion:-** Vera Jones (Rheolwr Aelodau - Gwasanaeth Democrataidd) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

Hefyd, Hannah Joyce (Uwch Swyddog Adfywio Strategol) ac Wyn Roberts (Cwmni Marchnata Aqua) ar gyfer eitem 3 isod; Amanda Davies (Rheolwr Adfywio Cymunedol) ac Alys Lloyd Jones (Swyddog Adfywio Ardal Dwyfor) ar gyfer eitem 4 isod; Gareth Jones (Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd Dros Dro) ac Aneurin Môn Parry (Rheolwr Gorfodaeth) ar gyfer eitem 5 isod.

**Ymddiheuriadau:-** Y Cynghorwyr Aled Evans, E. Selwyn Griffiths a Peter Read.

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Teyrnged**<br><br>Talwyd teyrnged gan y Cadeirydd i'r diweddar Gynghorydd Robert J. Wright.<br><br>Safodd yr aelodau fel arwydd o barch. | |

| | | |
|---|---|---|
| **2** | **Croeso a Chofion**<br><br>Croesawyd y Cynghorydd Sian Wyn Hughes i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn.<br><br>Cyfeiriwyd at anhwylder diweddar y Cynghorydd Peter Read a dymunwyd yn dda iddo. | |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **Cynllun Prynu'n Lleol**<br><br>Derbyniwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr yr Adran Economi a Chymuned ar Gynllun Prynu'n Lleol Gwynedd.<br><br>Tynnodd aelodau sylw at ffioedd parcio a'r ffaith nad oeddent yn hybu unigolion i siopa yn y canol trefi/pentrefi. | |
| | Pwynt Gweithredu:<br><br>Cymeradwyo cefnogaeth i'r cynllun a gofyn<br>i Aelodau wneud cysylltiadau yn eu wardiau unigol i | Aelodau |

| | | |
|---|---|---|
| | ddatblygu'r cynllun a datgan diddordeb drwy gysylltu â hannahjoyce@gwynedd.gov.uk | |

| | | |
|---|---|---|
| **4** | **Rhaglen Waith y Gwasanaeth Adfywio Cymunedol – Ardal Dwyfor**<br><br>Cyflwynodd y Rheolwr Adfywio Cymunedol raglen waith y Swyddog Adfywio Lleol.<br><br>Cefnogwyd cydbwysedd thematig / daearyddol y prosiectau. | |
| | Pwyntiau Gweithredu:<br><br>• Derbyn diweddariad pellach ymhen 6 mis;<br>• Gwneud ymholiadau o ran bwriad yr Adran Economi a Chymuned yng nghyswllt cyflwyno Rhaglen Waith Cynllun Cyflogaeth Llŷn ac Eifionydd. | AD / ALlJ<br><br>BA |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | **Monitro a Gorfodaeth Safleoedd Carafanau**<br><br>Rhoddwyd diweddariad ar waith Uned Gorfodaeth y Gwasanaeth Cynllunio yng nghyswllt monitro cyfnod gwyliau 12 mis safleoedd carafanau.<br><br>Ymatebodd yr Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd Dros Dro a'r Rheolwr Gorfodaeth i gwestiynau a roddwyd ymlaen gan y Cynghorydd Aled Evans. | |
| | Pwynt Gweithredu:<br><br>• Cyflwyno gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn dilyn cynnal gwaith monitro safleoedd carafanau yn dechrau 2016. | GJ / AMP |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Amser Cychwyn y Cyfarfod Nesaf**<br><br>Cyhoeddodd y Cadeirydd bod amser cychwyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Ardal ar ddydd Llun, 14 Rhagfyr wedi newid i 6.00pm.<br><br>Roedd hyn er mwyn galluogi aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio i deithio o Gaernarfon i Bwllheli mewn da bryd ar gyfer cychwyn y cyfarfod. | |
| | Pwynt Gweithredu: | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Nodi bod amser cychwyn y cyfarfod a gynhelir ar ddydd Llun, 14 Rhagfyr wedi newid i 6pm. | Pawb |